

Yr argyfwng pris ynni – a'i effaith ar ein capeli

Yn *Cenn@d*, rhif 58 (6 Ebrill), eleni cyhoeddwyd erthygl gan Aled Davies yn dwyn y teitl 'Mae'n wanwyn ... ond mae'r gaeaf yn dod', gan rag-weld yr heriau ar **aelwydydd** Cymru yn wyneb y cynnydd arfaethedig ym mhris tanwydd ac olew, thrydan a nwy [gweler <https://www.cennad.cymru/wp-content/uploads/2022/04/Rhifyn-58-Cennad.pdf>]

Yn yr erthygl ddilynol hon mae'n sôn am yr heriau a fydd yn wynebu **addoldai** o ganlyniad i'r codiadau arfaethedig hyn.

Erbyn hyn rydym yn deall bod y capiau ar brisiau ynni wedi'u codi unwaith eto, ac y gwelir cynnydd arall ym mis Hydref ac eto yn ystod gwanwyn 2023. Fodd bynnag, cafwyd hefyd addewidion gan Lywodraeth Liz Truss yn ystod yr wythnos a aeth heibio y bydd yna gymorth i gartrefi, ac er bod yna gapiau uchel mewn lle y bydd pecyn cymorth ar gael i helpu gyda thalu'r costau uwch hyn.

Fodd bynnag, mae'n stori hollol wahanol mewn perthynas ag adeiladau crefyddol fel capeli ac eglwysi. Mae'r rhain yn cael eu diffinio fel adeiladau 'busnes' yn hytrach na rhai domestig, ac o'r herwydd does dim cap ar y swm y mae cyflenwyr trydan yn cael ei godi ar yr adeiladau hyn. Mae nifer o gapeli eisoes wedi cael amcangyfrifon ar gyfer 2023: un capel yn Eifionydd yn sôn am cynnydd o £2,300 i £12,500, a chapel arall yn Arfon yn wynebu cynnydd o £11,000 yn 2022 i £24,000 yn 2023. Mae sôn fod pecyn cymorth i fusnesau ar y ffordd hefyd, a'r tro yma, yn wahanol i'r cymorth a gynigiwyd adeg Covid, fe fydd elusennau ac addoldai hefyd yn gymwys ar gyfer y cymorth hwn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at glywed mwy am y cymorth hwn: cymorth o hyd at chwe mis sydd wedi ei addo, mae'n debyg, wrth i eglwysi orfod cyllido a pharatoi ar gyfer cyfnod anodd.

Os yw'r prisiau uchel hyn – dros £1 am bob uned o drydan – yn cael eu gweithredu, gall hyn arwain at gau capeli, nid yn unig dros y gaeaf, ond yn barhaol. Mewn llawer cymuned wledig, y capel yw'r unig adeilad 'cyhoeddus' yn y pentref, ac mae wedi bod yn fan cyfarfod i'r gymuned gyfan ar hyd y canrifoedd. Mae'r capel wedi bod yn gartref i nifer o weithgareddau eraill fel Merched y Wawr, y Clwb Ffermwyr Ifanc, partïon plant, clybiau gwau a llawer o weithgareddau cymunedol eraill. Mae hyn yn ychwanegol at ei swyddogaeth fel addoldy a man cynnal digwyddiadau allweddol a chysegredig bywyd.

Erbyn hyn, wrth i gapeli gau oherwydd bod yr aelodaeth yn prnhau, a hynny yn dilyn heriau ôl-Covid a chynnydd mewn costau ynni, mae yna beryg gwirioneddol y gwelwn gymunedau heb addoldy na man cyfarfod cyhoeddus yn fuan iawn. Mewn llawer pentref, criw bychan iawn sy'n ceisio cynnal achos ac adeilad, ac yn wyneb costau cynyddol i gynhesu a goleuo'r capel, bydd llawer yn cael eu gorfodi i gau am nad oes cyllid i gynnal yr achos. Mae'n gyfrifoldeb ar lywodraeth, sydd wedi cynnal busnesau drwy gyfnod heriol



Covid a chostau ynni, i ymestyn allan hefyd i'r sector elusennol er mwyn gwarchod a chynnal y gweithgaredd yn y cymunedau hyn.

Mae capel Pencaenewydd yn Eifionydd, sydd newydd ddatlu ei 200 mlwyddiant, ar hyn o bryd yn wynebu cynnydd o 400% dros 12 mis yn ei gostau trydan: cynnydd blynyddol o £2,400 yn 2022 i £12,500 yn 2023, a hynny ar gytundeb sefydlog. Heb ymyrraeth a chefnogaeth gan lywodraeth, ni fydd gan gapeli fel hwn unrhyw ffordd o barhau i gynnal yr adeilad. Fel capel sydd wedi buddsoddi'n drwm mewn ynni adnewyddol ac wedi ceisio addasu'r adeilad i fod yn hygyrch a chyfoes, byddai gorfod cau'r capel yn drychineb i'r gymuned gyfan.

Y ffordd ymlaen

O gofio am y cynnydd mewn prisiau, efallai fod yn rhaid i'r eglwys addasu hefyd, a cheisio meddwl am ffyrdd i arbed ynni, e.e. drwy gyfarfod yn y festri neu mewn cartrefi, neuadd bentref neu ofod cymunedol arall. I baratoi ar gyfer y cynnydd hwn, mae'n hanfodol hefyd fod eglwysi yn darllen eu mesurydd(ion) cyn ac ar Hydref 1af. Gellir hefyd gofyn i'r cwmni ynni am amcangyfrif o'r bil tebygol dros y gaeaf. Un cam arall i'w ystyried yw cydaddoli gydag eglwysi eraill er mwyn rhannu costau.

Efallai hefyd fod angen edrych ar yr adeilad, ac ystyried a oes modd insiweiddio'r adeilad, gosod paneli solar a meddwl am ynni adnewyddadwy. Gall newid ffenestri neu hyd yn oed osod plastig dros ffenestri drafftio gweud gwahaniaeth mawr i fil gwresogi.

Cyfleoedd cenhadol

Wrth i nifer o bobl fregus yn ein cymunedau, yn enwedig rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain, orfod ystyried faint o wres a bywyd y gallant ei fforddio, mae cyfle gwirioneddol i rai eglwysi agor rhan o'r adeilad fel gofod cymunedol, gan gynnig paned poeth / cawl dros ginio, gan sicrhau bod yna le cynnes a chysurus i bobl gyfarfod dros fisoedd oer y gaeaf. Beth am drefnu cyfarfod yn eich eglwys i drafod rhai o'r heriau hyn, gan weld pa gamau gall eich eglwys wneud o fewn eich cymuned?

Encilio yn y Bala – gwireddu breuddwydion

Dros y degawd diwethaf bu'r gymuned Mizo ohonom yng ngwledydd Prydain yn breuddwydio ac yn sôn yn aml am y bwriad o ddod i Gymru fel grŵp er mwyn cyfarfod ag aelodau'r eglwys ac olrhain ôl troed ein cenhadon.

Ond byddai wedi aros yn ddim ond breuddwyd oni bai am y gwaith caled a wnaed gan Rebecca a Miara ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Un prynhawn braf o Awst, dyma gyrraedd Coleg y Bala o'r diwedd, naw ar hugain ohonom i gyd, gyda'r oeddrannau'n amrywio o bump i wyth deg tri.

Mae gan y Mizos gariad dwfn at y Cymry. Os gofynnwch i unrhyw un yn Aizawl, prifddinas Mizoram, ddweud un peth am Gymru, fe ddywedant heb feddwl ddwywaith, 'Nhw yw'r bobl a ddaeth â'r Newyddion Da inni.'

Pryd bynnag y bydd ein teulu yn mynd yn ôl i Mizoram ac yn siarad am Gymru, bydd ein ffrindiau a'n perthnasau'n dweud, 'Pan fyddwch chi'n siarad am Gymru, *ka lung a leng.*' Y cyfieithiad llythrennol fyddai: 'Pan fyddwch chi'n siarad am Gymru, mae fy nghalon yn mynd am dro.' Dyma ymadrodd tebyg iawn i'r gair Cymraeg 'hiraeth', a'r hyn fydd yn cael ei ddweud a'i olygu mewn gwirionedd yw: 'Pan fyddwch chi'n siarad am Gymru, rwy'n teimlo hiraeth am y bobl rwy'n eu caru, hiraeth am y lle rwy'n ei garu, hiraeth am gartref', er na fuon nhw erioed yng Nghymru. Mae'n anodd esbonio cariad o'r fath.

Wedi cyrraedd y Bala bnawn Sadwrn, 27 Awst, a setlo'n hunain yno, fe gawsom wasanaeth agoriadol ac amser anffurfiol wedyn o ganu emynau, moli Duw a dawnsio tan tua hanner nos, dan arweiniad ein matriarch 83 oed, Dr Mani Zadeng.

Arybore Sul, fe adawon ni am Gapel Bethany yn Nhregynon, lle cawsom groeso cynnes.



Buom yn cymryd rhan yn y gwasanaeth fel grŵp a chefais gyfle i siarad â'r gynulleidfa fel cadeirydd ein cymuned Mizo, a diolchais i'r Cymry am yr holl bethau gwych roedden nhw wedi'u gwneud i ni.

Wedi'r gwasanaeth hwnnw, aethom i Gapel Brooks, y bu'r Parch. D. E. Jones, sy'n fwy adnabyddus ym Mizoram fel Zosaphlua, yn gofalu amdano cyn cychwyn ar ei daith i Mizoram. Treulion ni amser yn gweddio yno. Crwydrai fy meddwl yn ôl dros ganrif a mwy wrth geisio dychmygu beth fyddai wedi bod yn mynd trwy ei feddwl ieuanc ef cyn cychwyn ar ei daith i wlad bell, heb wybod beth oedd yn ei ddisgwyl. Mae llawer ohonom yn teimlo bod hyn yn un o uchafbwyntiau ein hencil.

Yn y prynhawn, cyrhaeddod ni Gapel Jerusalem yn Rafail. Roedd hon eto'n daith hanesyddol i ni gan mai dyma'r union gapel yr arferai'r Parch. Thomas Jones, y cenhadwr cyntaf i Fryniau Khasi, addoli ynddo. Croesawyd ni gan y gynulleidfa yno gyda chinio blasus. Yma cynhaliodd y Parch. James Senate wasanaeth cymun yn yr iaith Mizo a fynychwyd hefyd gan lawer o'n brodyr a'n chwiorydd Cymreig. Gyda'r nos cafwyd gwasanaeth o fawl ac addoliad dan arweiniad tîm Coleg y Bala. Wrth ganu caneuon gyda'n gilydd yn Gymraeg, Saesneg a Mizo, cymaint oedd ein llawenydd fel y teimlem ei fod yn flas o'r nefoedd!

Dydd Llun, 29 Awst, ar ôl brecwast cawsom astudiaeth Feblaidd/gweithgaredd grŵp

dan arweiniad y Parch. James Senate, sy'n gwasanaethu'r Arglwydd yn ne Cymru. Buom yn trafod materion sy'n wynebu Cristnogion heddiw, materion fel: oes angen Duw arnaf? Beth yw Duw i mi? Sut gallaf glywed llais Duw? Fe fuon ni'n rhannu ein meddyliau a'n profiadau. Roedd hwn yn uchafbwynt arall i'n hencil.

Ar ôl cinio, aethom i ymweld â Byd Mary Jones, ynghyd â beddau Pi Teii (Gwen Rees Roberts) a Thomas Charles ym mynwent Llanycil. Gallaf ddweud â'm llaw ar fy nghalon fod Mary Jones yr un mor adnabyddus ym Mizoram ag y mae yng Nghymru, os nad yn fwy felly. Dwi eto i ddod o hyd i oedolyn Mizo sydd ddim yn gwybod stori Mary Jones. Wedi'r cyfan, adroddwyd ei hanes hyfryd i ni yn yr ysgolion Sul a fynychir gan bob Mizo yn eu plentyndod. Roedd Byd Mary Jones ar gau i'r cyhoedd ar y pryd, ond diolch i Dduw a'r Parch. Aneurin Owen, sef Pu Zolawma, cawsom fynediad i'r safle. Gyda llaw, yr ydym yn cyfrif Pu Zolawma yn fwy Mizo na Chymraeg. Felly rydym ni'n teimlo!

Ymwelwyd hefyd â chartref plentyndod y Parch. D. E. Jones yn Llandderfel, ger y Bala. Yn y prynhawn cawsom amser anffurfiol yn sgwrsio gyda phlant ac wyrion ein cenhadon. Ni allwn ddiolch digon iddynt am ddod o hyd i'r amser i ddod i'n cyfarfod gan fod yn rhaid iddynt deithio'n bell i gyrraedd yno. Cawsom ginio barbeciw gyda'n gilydd a drefnwyd gan dîm bendigedig Coleg y Bala. Gyda'r nos cawsom amser ffrwythlon yn moli Duw ac yn rhannu atgofion hyfryd a doniol yn aml gan blant ein cenhadon. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Meirion Morris, cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol EBC.

Ddydd Mawrth, 30 Awst, buom yn ymweld â mwy o safleoedd hanesyddol bwysig i'r Mizos. Roedd Pu Zolawma yno i ni bob amser. Ym Mangor, gweldd bedd y Parch. Alwyn Roberts a'i wraig, Mair. Alwyn oedd Prifathro cyntaf Coleg Prifysgol Pachhunga, Aizawl. Yn Abergele, roedd beddau'r Parch D. E. Jones a'r Parch. Owen Owen. Yn olaf, ymwelwyd â bedd Dr Pi Puii (Gwyneth Roberts), a oedd yn un o arloeswyr Ysbyty Presbyteriaid Durtlang. Cefais

(parhad ar y dudalen nesaf)



Encilio yn y Bala – gwireddu breuddwydion

(parhad o dudalen 2)

gyfle i weithio yn yr ysbyty cyn symud i'r Deyrnas Unedig. Roedd rhai o'r staff hŷn yn dal i siarad yn annwyl am Pi Puii. Yna ymwelwyd â beddau'r Parch. a Mrs J. M. Lloyd ym Mhrestatyn. Canwyd emynau Mizo, adroddwyd gweddiâu a gosod tusw o flodau ger pob bedd yr ymwelwyd ag ef.

Roedd ein hencil yn llwyddiant ysgubol ac roedd yn brofiad unwaith mewn oes i bob un ohonom. Fe gyfoethogodd ein bywydau

ysbrydol, ein hundod â Christ, a theimlodd pob un ohonom ei bresenoldeb yn ystod yr holl amser. Ni allwn ddiolch digon i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Rebecca, Miara, Pu Zolawma a thim Coleg y Bala am wireddu ein breuddwydion.

Mae ein Cymuned Mizo yn y Deyrnas Unedig wedi'i chofrestru fel elusen o'r enw UK Zofate. Mae ein haelodaeth yn cynnwys tua 300 o ddynion, merched a phlant. Byddwn yn cynnal gwasanaeth ar y Sul yn Llundain unwaith y mis a gwasanaeth Zoom unwaith y mis hefyd. Gan ddilyn esiampl ein cenhadon Cymreig, rydym yn helpu'r bobl yn India a

De-ddwyrain Asia drwy anfon rhoddion i'r cartrefi i blant amddifad, at canser ac AIDS, ac rydym yn cefnogi cenhadon sy'n gweithio yn Cambodia. Mae ein nifer yn cynyddu'n gyson ac rydym yn awyddus i brynu adeilad eglwysig ein hunain yn Llundain a'r cyffiniau. Os gwelwch yn dda, parhewch i weddio drosom a byddwn hefyd yn gweddio'n ddi-baid drosoch chi.

Boed i Dduw eich bendithio bob amser.

*Dr Thangura Zadeng
Cadeirydd, UK Zofate,
Caergaint, Caint*

'Trysorau Newydd a Hen'

Fy hoff emyn

Bendith y Gân Newydd

Mae sawl blwyddyn wedi pasio ers i un o fyfyrwyr gap Coleg y Bala fy nghyflwyno i'r gantores Kari Jobe a chwarae un o'i chaneuon yn ystod defosiwn boreol y coleg. Bu i'r gân 'What love is this' greu argraff arnaf ac roedd yn rhaid mynd i siop Manna ar stryd fawr y Bala i archebu'r CD i glywed mwy o'i chaneuon. Rwyf wedi gwrandao ar y cryno ddisg yn y car sawl gwaith, a geiriau'r caneuon yn rhoi cysur a chyfle i gydganu yn ystod y daith. Mae gweithio yng Ngholeg y Bala a chydaddoli â chriw arbennig iawn wedi rhoi'r cyfle imi glywed caneuon newydd, caneuon mawl na fuaswn wedi eu clywed o'r blaen. Dwi hefyd wedi cael y cyfle i fynychu 'Colour', cynhadledd i ferched yn Llundain, ac yma eto wedi cael fy nghyflwyno i ganeuon mawl Eglwys Hillsong. Maen nhw'n ganeuon cyfoes, gyda geiriau a cherddoriaeth sy'n hawdd i'w canu a'u deall.

Mae Is-bwyllgor y Chwiorydd, dan arweiniad Carys Davies a Sarah Morris, cydlynoddion Dorcas, wedi cynnal cyfres o astudiaethau Beiblaidd. Yn ystod y cyfnod clo a gweithgareddau'r capeli wedi stopio dros dro, bu i'r ddwy baratoi astudiaethau dros Zoom. Ers Ionawr 2021 mae nifer fawr o ferched Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi derbyn bendith wrth ymuno â'r astudiaethau. Mae pum cyfres wedi bod, sef: Dewch at y Bwrdd, Merched a gyfarfu â'r Iesu, Byw mewn Gobaith, Gweddi'r Arglwydd ac yn ddiweddar y Salmu. Yn ystod yr astudiaethau roedd Carys a Sarah wedi paratoi yn helaeth iawn ar ein cyfer, gan gyfeirio at wahanol ddarnau o'r Beibl, cael trafodaethau mewn grwpiau bach ac i ddiweddu pob astudiaeth emyn pwrpasol i ni ei gydganu (pawb ar *mute*, wrth gwrs).

Ond wrth deithio adre o Gaernarfon, wedi bod yn gwarchod yr ŵyr, roeddwn yn



gwrandao ar CD Kari Jobe. Daeth y gân '[What love is this](#)' ymlaen, ac am y tro cyntaf bu i'r frawddeg 'Jesus in your suffering, you were reaching; you thought of me' wneud i mi feddwl beth oeddwn yn ei ganu. Pam? Wel, y noson flaenorol roeddem wedi bod yn astudio Salm 40 gyda Carys yn arwain. Mae adn. 17 yn dweud hyn: 'Un tlawd ac anghenus wyf fi, ond y mae'r Arglwydd yn meddwl amdanaf'. Pa mor ffodus yr ydym o wybod hynny: bod yr Arglwydd yn meddwl amdanom bob amser. Does ots pw ydym, beth ydi ein sefyllfa, yng nghanol y chwerthin a'r crio, hyd yn oed pan oedd o ar y groes, yn dioddef, roedd yn meddwl am bob un ohonom yn unigol. Am gysur.

Mae gennym i gyd ein hoff emyn, ac mae rhai o ffyddloniaid y grŵp astudio wedi rhannu rhai ohonynt sydd â'r un neges o gysur: emyn William Williams – 'Iesu, Iesu, 'rwyf ti'n ddigon (*Caneuon Ffydd*, 320); emyn R. O. Hughes – 'Dy ewyllys Di a wneler' (*Y Llyfr Emynau a Thonau*, 572) gyda'r frawddeg yma i gloi'r pennill cyntaf: 'Bodlon ydyf / i'w hwynebu gyda Thi'; yn ogystal â geiriau hyfryd Elfed – 'Yr Arglwydd a feddwl amdanaf' (*Caneuon Ffydd*, 208).


Sawl un ohonoch fu'n gwyllo neu a wnaeth fynychu *Moliant y Maes* yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf? Yn ystod y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* bu i ni

glywed perfformiad Aled Myrddin o'i emyn-dôn fuddugol 'Emyn i Gymru' ar eiriau hyfryd Eirian Dafydd, [Gweddi'r Pererin](#). Dyma i chi eiriau eto sy'n rhoi gobaith, a'r frawddeg sy'n dweud: 'trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu'. Does ots ym mha iaith, yr un yw'r neges: mae Kari Jobe yn dweud: 'I'm standing here beneath the shadow of the cross, / I'm overwhelmed that I keep finding open arms'.

Diolch am emynau/caneuon mawl i roi cysur, beth bynnag ydi ein sefyllfa. Diolch i awduron hen a newydd a chyfansoddwyr sydd wedi rhoi'r cyfan i ni eu canu, boed mewn addoliad neu yn y car.

Cymerwch eiliad bach i wrando a myfyrio.

*Eirian Roberts
Trefnydd Gwaith y Chwiorydd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru*



Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch a Chroeso i ffrindiau, myfyrwyr ac ieuencid newydd i Lundain

Bore Sul, Hydref 9fed, am 11.00

Lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu i ddilyn

Eglwys Gymraeg Canol Llundain
30 Eastcastle Street, Oxford Circus,
London W1W 8DJ


Croeso cynnes i bawb

Paratoi ar gyfer tymor newydd yr Ysgol Sul

Dosbarthiadau oedolion

Maes Llafur 2022/23 – *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham: y patriarch eciwmenaidd*, gan Gareth Lloyd Jones.

Yn dilyn blynyddoedd o wersi'n seiliedig ar gyfrolau'r diwedd Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts (a fu'n dilyn themâu o fewn y Testament Newydd), yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn byddwn yn cael ein tywys at adrannau a llyfrau yn yr Hen Destament. Bydd hynny mewn cyfres o lyfrau 'Dehongli ...', wedi eu paratoi gan y Parchedig Ddr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan.



gwahanol mewn un dosbarth. Ceir cyfresi sy'n cynnwys gwersi ar gyfer pob Suly o'r flwyddyn, ond hefyd gyfresi sy'n fwy addas ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r sgol Sul yn cwrdd yn fwy tymhorol, neu efallai'n fisol.

Mae gwybodaeth lawn am y cyfresi hyn ar gael o wefan Cyngr Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, lle ceir hefyd samplau o wersi i'w lawr lwytho. Mae digonedd o wersi hefyd ar gael o wefan www.gair.cymru, a'r rheini yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

O fis Medi 2022 ymlaen, byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham, y patriarch eciwmenaidd, ac yna, yn 2023, yn astudio'r ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Pris y cyfrolau hyn yw £8.99 yr un, ac maent ar gael o'ch siop lyfrau Cymraeg leol, neu gellir prynu copi o'r gyfrol ar Abraham ar ffurf PDF digidol yma: <https://ysgolsul.com/?downloadofad=dehongli-bywyd-abraham-y-patriarch-eciwmenaidd>.

Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, fe fydd yna gyflwyniad byr i'r wers ac ambell sylw perthnasol a chyfoes yn cael eu cynnwys o fewn tudalennau *Cenn@d* a'r *Tyst*, yn ogystal â chwestiynau i'w hystyried. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, y Parchedig Meirion Morris fydd yn gyfrifol am y gwersi a'r sylwadau hynny. Bydd y gyfres yn cychwyn yn ffurfiol cyn diwedd Medi.

Dosbarthiadau plant ac ieuencid

Dros y blynyddoedd diwethaf cyhoeddwyd nifer o werslyfrau gwahanol, sy'n addas i bob oed ac i sefyllfaoedd gwahanol. Mae rhai'n addas i ysgolion Sul mwy, efo'u dosbarthiadau gwahanol, tra mae eraill wedi eu paratoi ar gyfer criw bach ac ystod o oeddrannau



**Seion, Capel y Bedyddwyr, Llanelli,
yn dathlu 200 mlynedd yr achos**

**Darlith gan
Y Parchg Ddr D. Densil Morgan
'Hanes Bedyddwyr Llanelli'**

yng Nghapel Greenfield,
Murray Street / Station Road, Llanelli SA15 1DJ
(trwy ganiatâd caredig y Gweinidog a'r diaconiaid)

**Dydd Sadwrn, 24 Medi
am 4 o'r gloch y prynhawn**

Mae aelodau Capel Greenfield, yn garedig iawn,
yn darparu lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y ddarlith

Croeso Cynnes i Bawb

Dros y misoedd nesaf fe fydd Cyngr yr Ysgolion Sul ar daith, mewn un lleoliad gwahanol ar hyd a lled Cymru bob wythnos. Bydd cyfle i weld rhai o'r adnoddau hyn, yn ogystal â thrafod sut mae modd cychwyn a chynnal gweithgaredd Cristnogol sy'n addas ar gyfer ein cyfnod ni yn lleol yn ein cymunedau. Bydd gwybodaeth am y nosweithiau hyn ar dudalen Facebook Cyngr yr Ysgolion Sul.

Cofiwch gysylltu os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor: aled@ysgolsul.com neu 01766 819120.

*Aled Davies
Cyfarwyddwr Cyngr Ysgolion Sul Cymru*

Cynhelir Oedfa i Ddathlu DAUCANMLWYDDIANT GENI IEUAN GWYLLT (1822–77)

yng Nghapel Pen-llwyn
Nos Sul, 2 Hydref 2022
am 5.00 yh

Llywydd: Ms Bronwen Morgan

Arweinir y noson gan

Y Fns Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths

Cyfeilydd: Alan Wynne Jones

Dewch yn llu i ganu ac i rannu

Bydd rhaglen ar gael wrth y drws

Cyfrannodd John Roberts (Ieuan Gwyllt) a anwyd yn Nharhiwfenel, Capel Seion, cyn i'w deulu symud i ardal Pen-llwyn, yn aruthrol i ganu cynulleidfaol yng Nghymru. Heblaw am gyfansoddi emyn-donau mawreddog fel 'Moab' a 'Liverpool' ef hefyd a gyhoeddodd *Sŵn y Jiwibili* oedd yn addasiad o emynau poblogaidd Sankey a Moody. Yr ydym yn parhau i ganu rhai o'i donau mwyaf poblogaidd hyd heddiw!

Byddwn yn cael ein harwain i gofio am fywyd ac am gyfraniad John Roberts gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, sy'n gerddor ac yn arbenigwr yn hanes canu cynulleidfaol. Bydd Margaret Daniel, Blaenannerch, yn ein harwain i ganu detholiad o'r emynau a bydd Alan Wynne Jones, Bow Street yn cyfeilio wrth i ni gydganu.

Hanes Tregaron a'r Cyffiniau gan D. Ben Rees (Y Lolfa, 2022; pris £14.95 – clawr meddal, £29.95 – clawr caled)

I'r degau o filoedd a fynychodd yr Eisteddfod Genedlaethol groesawgar o 30 Gorffennaf hyd 7 Awst 2022 bydd ardal Tregaron yn aros yn y cof yn gefndir hardd i brysurdeb diwylliannol y Maes hwylus a hardd. Proffwydodd D. Ben Rees hanner can mlynedd yn ôl y byddai'r Eisteddfod yn dod i'r meysydd hyn a gwiredwyd ei freuddwyd, fel y dywedodd wrth y dyrfa oedd wedi dod ynghyd i wrando ar ei ddarlith ar hanes Tregaron yn y Babell Lên ar ddiwrnod agoriadol yr Eisteddfod. Ac yn y cyfarfod hwn, dan gadeiryddiaeth Elsi Reynolds, lansiwyd ei gyfrol swmpus ar hanes Tregaron.

Bu Tregaron yn dref farchnad ers canrifoedd, yn wir ers y 13eg ganrif pan oedd hosanau, blancedi a dillad cynnes ar gyfer oeni'r bryniau cyfagos yn cael eu gwerthu yno bob dydd Mawrth. Cynhelid ffeiriau prysur iawn yma ym misoedd Mawrth a Mai, pan oedd da byw, yn geffylau, teirw a defaid, yn cael eu masnachu. Roedd y rhain, yn eu tro, yn denu llu o borthmyn, ac amcangyfrifir bod 30,000 o anifeiliaid yn cael eu symud yn flynyddol o Dregaron i farchnadoedd Llundain.

Magwyd yr awdur ar fferm hanner ffordd rhwng Tregaron a Llanddewibrefi ac felly mae'n gallu plethu i strwythur y gyfrol beth o'i hanes teuluol ei hun a'i atgofion personol.


Cawn ein cyflwyno i grwydriaid a beirdd hunanaddysgedig, i farbwyr lleol fel Jac Olifer, ac i lu o ffermwyr yn ogystal â llu o weinidogion. Yn y pentrefi cyfagos roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr a'r tenantiaid yn Fethodistiaid Calфинаidd selog ac roedd diwylliant y capel yn gryf iawn. Yn wir, yn 1901 nid oedd dim llai na 91 o gapeli yn ne Ceredigion, sef un ar gyfer pob 186 o bobl, â dau gapel yn nifer o'r pentrefi. Ond efallai nad oes yr un mor eiconig â Soar-y-mynydd unig, un o'r tai cwrrd Cristnogol symlaf a sefydlwyd dros 200 mlynedd yn ôl mewn lle cyn anghysbell ond prydferth ar lan afon Camddwr.

Cymeriadau Lleol

Mae gan dref Tregaron ei hun dirnodau gweladwy iawn, megis y cerflun o'r gwleidydd a'r heddychwyr Henry Richard, siop y gemydd Rhiannon Evans y tu ol i gogolofon Twm Siôn Cati a'r Talbot Hotel, lle y gellid mynd i dorri syched ers y Canoloesoedd. Mae gan yr ardal hefyd enw da ledled y byd am fridio cobiau Cymreig, er enghraifft Bridfa Derwen, cartref y Dderwen Rosina chwedlonol a'i hepil, Derwen Welsh Comet, a allforiwyd i Bacistan i wella'r stoc o geffylau ar gyfer chwarae polo.

Bu'r dref yn ganolbwynt prysur i ddiwylliant yr iaith Gymraeg ers blynyddoedd lawer, ac mae'r ysgol uwchradd leol, Ysgol Uwchradd Tregaron a elwir bellach yn Ysgol Henry Richard, wedi cynhyrchu nifer o genedlaetholwyr amlwg, megis W. Ambrose Bebb, Cassie Davies, Griffith John Williams a J. Kitchener Davies, nes iddi gael ei hadnabod yn goeglyd fel ysgol breifat Plaid Cymru.

Un o bobl fwyaf diddorol yr ardal oedd Joseph Jenkins, a ymfudodd i Awstralia, lle y bu'n byw am chwarter canrif fel swagman. Yn ffodus, cadwodd ddyddiadur manwl o'i anturiaethau dros gyfnod o ryw drigain mlynedd. Yn fwy ffodus



fyth, cafwyd hyd i'r rhain ar ôl ei farwolaeth a'u hargraffu mewn cyfrol y dywedodd Jan Morris amdani ei bod wedi dod â chorneli gwahanol byd y 19eg ganrif yn syfrdanol o fyw.

Mae rhai o'r cymeriadau lleol eraill yn llawer mwy diweddar, megis y pysgotwr a'r darlledwr Moc Morgan, a aeth â'r Arlywydd Jimmy Carter a'i wraig, Rosalind, allan am ddiwrnod o bysgota ar afon Teifi.

Dadleuol

Roedd rhai trigolion lleol yn fwy dadleuol, er enghraifft Elizabeth Inglis-Jones o Fetws Bledrws a enynnodd ymateb cryf gan bennaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gyda'i phortread deifiol o fywyd Sir Aberteifi yn ei nofel hanesyddol gyntaf, *Starved Fields*.

Ond ni tharfwyd ar Inglis-Jones ac aeth ymlaen i ysgrifennu nifer o lyfrau eraill gan gynnwys *Peacocks in Paradise*, sy'n adrodd hanes Thomas Johnes ac ystad yr Hafod, y tybir ei fod yn ysbrydoliaeth i gerdd 'Kubla Khan' Coleridge.

Gyda'i egni a'i ddiwydrwydd arferol mae D. Ben Rees wedi cynhyrchu cyfrol sylweddol am dref Gymreig fechan ond arbennig. Mae'r gyfrol yn elwa'n fawr o'i wybodaeth eang a'i gariad amlwg at y lle a'i drigolion, o berchnogion garej i aelodau'r clwb jiwdo, o gludwyr llythyrau a gerddai filltiroedd dros y bryniau i fugeiliaid yn yr un lleoedd gwyllt. Y bobl sy'n dod â lle yn fyw ac mae D. Ben Rees yn ein cyflwyno i nifer helaeth ohonynt gyda'i egni a'i frwdfrydedd arferol.

Jon Gower

O'r Beibl: 16

Y Gwynfydau (9)

'Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.'
(Mathew 5:10)

Hwn yw'r gwynfyd olaf yn y Bregeth ar y Mynydd. Yn y Gwynfydau mae'r Arglwydd Iesu wedi amlinellu sut bobl yw'r rhai sy'n wir ddisgyblion iddo; sut bobl yw'r rhai sydd wedi 'edifarhau' a chredu'r Efyngyl er mwyn derbyn bendith Duw (Mathew 3:2). Mae'n bwysig atgoffa ein hunain o'r hyn y mae Iesu eisoes wedi ei ddweud cyn dod at y Gwynfyd olaf.

Yn gyntaf, mae Cristnogion yn 'dlodion yn yr ysbryd' (Mathew 5:3). Hynny yw, maent wedi edrych ar eu calonau eu hunain gan sylwi ar eu tlodi ysbrydol fel pechaduriaid. O weld eu pechod a'u tlodi, maent yn 'galaru' (5:4) gan droi at Dduw am y maddeuant a'r bywyd sy'n cael eu cynnig yn rhodd yng Nghrist. Maent yn 'addfwyn' (5:5) eu hagwedd tuag at eraill ac maent yn 'newynu a sychedu' (5:6) am gael gweld cyfiawnder Duw yn cael ei sefydlu yn y byd o'u cwmpas. Maent yn 'drugarog' (5:7) ac yn araf i ddigio, ac maent yn 'bur eu calon' (5:8) wrth iddynt fyw bywydau sanctaidd i Dduw. Maent yn 'dangnefeddwyr' (5:9) sy'n barod i faddau yn hytrach na thalu'r pwyth yn ôl.

Dyma ddisgrifiad ardderchog o nodweddion bywyd y Cristion. Y rhain yw'r bobl sydd wedi cael eu bendithio gan Dduw yn y gorffennol, sydd yn cael eu bendithio yn y presennol a'r rhai fydd yn cael eu bendithio yn y dyfodol. Y rhain yw'r bobl sydd yn ddinasyddion yn 'nheyrnas nefoedd' (5:3) a'r rhai fydd yn cael eu 'cysuro' (5:4) gan Dduw. Y rhain fydd yn cael 'etifeddu'r ddaear' (5:5) a'r rhai fydd yn cael eu 'digoni' (5:6) pan ddaw Crist yn ôl. Y rhain fydd yn cael derbyn 'trugaredd' (5:7) Duw yn hytrach na'i farn ar y dydd olaf a'r rhai fydd yn cael ei 'weld' (5:8) wyneb yn wyneb ar y diwrnod hwnnw. Y rhain yw'r rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu yn 'blant i Dduw' (5:9) trwy eu ffydd yn Iesu Grist.

Fel pob gwynfyd, mae'r gwynfyd olaf hefyd yn troi safonau'r byd wyneb i waered. Mae Iesu yn dweud bod y rhai sy'n cael eu 'herlid yn achos cyfiawnder' yn 'wyn eu byd' (5:10). Nid oes neb yn disgwyl i rywun sy'n cael ei erlid fod yn 'wyn ei fyd'! Ond, yn achos y Cristion, mae hyn yn gwbl wir.

Os ydym yn credu yn Iesu Grist ac yn mentro byw ein bywydau iddo, byddwn yn cael ein herlid neu ein gwrthwynebu gan y byd o'n cwmpas. Er na chawn ein 'herlid' am ein ffydd yng Nghymru heddiw, rydym yn sicr o gael ein gwrthwynebu am ei ddilyn. Mae pobl yn sicr o dynnu ein coes am garu Iesu'n fwy na neb arall ac o'n sarhau am gymryd y Beibl o ddifrif. Mae hyd yn oed ein cyd-weithwyr, ein ffrindiau a'n teuluoedd yn gallu pwyso arnom i gyfaddawdu ein ffydd gan ddod yn debycach i'r gymdeithas sydd o'n cwmpas, er mor groes ydy rhai o'i blaenoriaethau hi i rai'r Arglwydd Iesu. Er hynny, mewn rhai gwledydd heddiw, gan gynnwys Affganistan, Gogledd Corea, Somalia, Libia, Iemen, Eritrea, Nigeria, Pacistan, Iran, a Tsieina, mae erledigaeth yn realiti dyddiol. Gall Cristnogion y gwledydd hyn gael eu lladd am gredu yn Iesu.



Ond er mor rhyfedd mae'n swnio i'n clustiau, mae Iesu'n dweud bod y rhai sy'n cael eu herlid a'u gwrthwynebu 'o'm hachos i' (5:11) yn 'wyn eu byd'. Pam? Oherwydd 'eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd' (5:10). Er y gall Cristnogion gollu eu statws, eu heiddo, eu cartrefi, a'u teuluoedd am gredu yn Iesu, nhw yw'r rhai sy'n cael bod yn rhan o 'deyrnas nefoedd' heddiw a'r rhai fydd yn cael eu cysuro gan Iesu pan ddaw'n ôl. Diolch iddo!

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pam mae Cristnogion yn cael eu gwrthwynebu neu eu herlid heddiw? Ydyn ni wedi teimlo'r pwysau i gyfaddawdu yn ddiweddar? Ym mha ffordd?
- Pam mae'n syndod fod Iesu'n dweud bod y rhai sy'n cael eu herlid yn 'wyn eu byd'?
- Pam mae Cristnogion sy'n cael eu herlid yn 'wyn eu byd'?

Gwilym Tudur

Hon yw'r olaf yn y gyfres gan y Parch. Gwilym Tudur, a diolchwn iddo am baratoi'r gwersi hyn ar ein cyfer. Yr wythnos nesaf byddwn yn adfer y wers ysgol Sul gyda chyfres o fyfyrddodau wythnosol o waith y Parch. Meirion Morris a fydd yn dilyn hanes Abraham (Gweler hefyd t. 4).

BBC | radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 25 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o gymanfa Westminster, Llundain

Sul, 25 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Emyr Gwyn Evans, Y Tymbl



O Gefn Gwlad



Pa obaith?

O'r Amerig y daw'r stori hon. Yno mae'r National Rifle Association yn bodoli, un o'r llu o gyfundrefnau sy'n hybu'r farchnad ynnau yn y wlad enfawr honno. Mae iddi, yn ôl y sôn, dros bum miliwn o aelodau, ac mae'n flaenllaw yn y gwrthwynebiad i dynhau rheolau gynnuau yno.

Yn eu confensiwn ym Mai 2016 cyn etholiad arlywyddol y flwyddyn honno, y gwestai arbennig oedd mab Donald Trump – Trump Junior fel y gelwir ef yn yr Amerig. Prif destun y sgwrsio ymhlith y mynychwyr oedd yr ymgyrch arlywyddol oedd eisoes wedi cychwyn, a'r pwysigrwydd o sicrhau na fyddai yr un Clinton arall yn dod yn arlywydd. Cyfeiriad oedd hwnnw at y ffaith mai ymgeisydd y Democratiaid oedd Hillary Clinton. Cytunai pawb ei bod yn hanfodol cefnogi ymgyrch Donald Trump a'i gael o i'r Tŷ Gwyn deued a ddelo, pe bai ond i sicrhau parhad y fasnach ynnau.

Yn ystod ei araith i'r confensiwn meddai Trump Junior: 'Bydd fy nhad yr arlywydd enwocaf a gafodd America erioed am ddiogelu yr ail welliant (*second amendment*), sy'n rhoi hawl i'r trigolion i gario gynnuau i'w hamddiffyn eu hunain.' Wedi iddo orffen cododd y llywydd ar ei draed ac meddai: 'Gadewch inni gasglu arian i gefnogi ei ymdrechion.' A chyn iddo orffen,



bron, gwaeddodd un, 'Mi roddaf bum can mil o ddoleri.' Fe'i cefnogwyd gan un arall a'i dyblodd i filiwn, a chyn diwedd y cyfarfod roedden nhw wedi codi dros bum miliwn o ddoleri i gefnogi ymgyrch Trump.

Ac mi wyddon ni'r canlyniad.

Ie, dim ond un o'r cyfundrefnau yn ein byd sy'n hybu popeth ond brawdgarwch a chariad a chymod. Mi wyddom gymaint o bobol sy'n cael eu saethu'n farw yn yr Amerig bob blwyddyn, ac mae'r selogion mwyaf o blaid hawl pobol i barhau i gario gynnuau yn efengylwyr rhonc!

Yn ein Cylch Trafod yng Nghefnddwysarn byddwn yn aml yn sôn am broblemau mawr y byd a sut mae eu datrys, beth y gallwn ni, griw bychan ohonom, ei wneud i gyfrannu at hynny. Fawr ddim, wir, pan mae grymoedd mor bwerus, mor gyfoethog ar yr ochr arall i bethau. Fe barhawn i ffidlan efo'n cyfundrefnau bach, efo'n henwadau darfodedig, fel Nero yn ffidlo tra oedd Rhufain yn llosgi. Mae Cristnogaeth yn gofyn am garu gelyn, am droi'r foch arall, am garu cymydog fel ni ein hunain. Tipyn o ofyn, a dweud y lleia!

Ond na ddigalonwn, achos meddai Iesu – ac mi gofiwch y rhan o'r adnod o Efengyl Ioan, rwy'n siŵr:

'Yn y byd gorthrymder a gewch:
eithr cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd.'

A sawl emyn hefyd megis hwn:

Marchog, Iesu, yn llwyddiannus,
gwisg dy gleddau 'ngwasg dy glun;
ni all daear dy wrth'nebu
chwaith nac uffern fawr ei hun.

Ryden ni felly yn perthyn i fyddin anorchfygol. Yden ni? Beth yn union mae'r datganiad a'r emyn yna'n ei olygu? Dim, mae'n ymddangos, os ystyriwn ni amgylchiadau gwledydd y byd: y newyn, yr ymladd, y gorthrymu ar y gwan a'r tlawd, yr anghyfartaledd mewn bywyd, dioddefaint pobol ddiniwed a phlant yn arbennig.

Beth yw'r ateb? Sut mae concro grymoedd y tywyllwch y cyfeiriais at un enghraifft ohonyn nhw uchod? Waeth i mi gyfadde nad ydw i'n gwybod.

Cofiwch, dwi'n sgrifennu hwn ar ddiwrnod tywyll, cymylog, glawog, tywydd i godi'r felan ar unrhyw un. Tase hi'n braf a'r haul yn tywynnu, falle y baswn i'n dweud yn wahanol. Rhai fel yna yden ni, ynté!

Fel y dywedodd Williams Parry amdano'i hun: "Rwy'n wych, 'rwy'n wael, 'rwy'n gymysg oll i gyd'. Felly finnu, mae'n debyg, a chithau o bosib, yn gymysg a chymysgylid!

Elfyfyn Pritchard

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Y cardotyn cyfoethog

Emyn 487: 'Awn, bechaduriaid, at y dŵr'

Yn yr Ysgrhythurau cawn ein galw i roi ein hymddiriedaeth nid mewn eilunod o unrhyw fath ond yn yr hwn na all ein llygaid ei weld, na'n deall ei amgyffred, na'n calon ei gynnwys – yr Arglwydd Dduw ei hun.

Darlleniad: Salm 146

Canlyniad ariangarwch hunanol yw ein dihidrwydd o anghenion pobl anghenus. Cedwir rhai o gondemniadau llymaf y Beibl ar gyfer balchder cyfoethogion y byd!

Darlleniad: Amos 6:1a, 4–7

Gweddi

Geidwad sanctaidd, yr hwn a ddywedodd wrthym nad yw dy feddyliau di fel ein meddyliau ni, na'th ffyrdd di yn debyg i'n llwybrau gwyrngam ni, trugarha wrthym. Caniatâ i ni glywed dy lais llym a thrugarog, i gael adnabod y Bugail Da, ac i gael ein cyfareddu gan dy Ysbryd Glân. Tywys ni drachefn i lwybrau edifeirwch a ffydd. Amen.

Emyn 805: 'Rho i mi nerth'

'Y dyn sydd heb enw'

Mewn cyfres o ffilmiau o'r 1960au, *A Fistful of Dollars*, *For a few dollars more* a *The Good, the Bad and the Ugly*, fe'n cyflwynir i'r 'dyn sydd heb enw', cymeriad a chwaraeir gan Clint Eastwood.

Y rhai dienw

Pan ymwelwn â threfi a dinasoedd, gwelwn unigolion yn begera, yn cysgu mewn cysgod glan môr, weithiau â photeli wrth eu hymyl, yn fynych yn unig, weithiau gyda phobl eraill sydd yn yr un cyflwr ac yn rhannu'r un anghenion. Cyn belled ag rydym ni sy'n ddiogel ein byd yn y cwestiwn, bodau ydynt sydd heb enwau ganddynt. 'Y boi sy'n cysgu ar y prom,' ydyw i ni. Ac os gwnaethon ni sylwi arno o gwbl, mae'n bosib mai'r ci ffyddlon oedd bob amser yn gwmni iddo aeth â'n sylw yn y lle cyntaf. Neu, beth am y wraig sy'n eistedd ar y sgwâr? Honno efo'r gwallt bob lliw a'r dillad blêr?

Pobl heb enwau ydynt, pobl i'w hosgoi, pobl sy'n anhysbys i ni, yn anweledig, allan o'n cylchoedd, ymhell o'n meddyliau.

Darllen: Luc 16:19–31 – 'Y dyn cyfoethog a Lasarus'

Dim ond unwaith mae Iesu yn cynnig enw i gymeriad sy'n ymddangos yn ei ddamhegion. A Lasarus yw hwnnw. Adroddir hynt y gŵr goludog yng nghân Bob Tai'r Felin: <https://soundcloud.com/bobrobertstairfelin/y-gwr-goludog-a-lazarus>

Yn y ddameg tanlinellir un o themâu amlycaf Luc, sef bod y distadl a'r anghenus yn cael eu codi tra mae'r cyfoethog balch yn cael eu troi ymaith yn waglaw (Luc 1:50–55).

Dramatis personae

Sylwn yn gyntaf ar y *dyn cyfoethog*. Dyma rywun oedd a phob moethusrwydd ganddo. Gwisgai'r dillad porffor drudfawr a'r lliain main mwyaf moethus yn erbyn ei groen. Roedd ei dŷ fel plas ac ni chât angen y tlawd oedd gerllaw ei gartref fennu dim ar ei foethusrwydd oligarchaidd.

Ar ddiwedd ei oes cafwyd gwasanaeth angladdol urddasol. Er moethusrwydd ei rawd ddaearol, yn Hades a'i boenau y glaniodd. Hyd yn oed 'yn y poen arteithiol' ni allai weld terfynoldeb ei gyflwr. Ni sylwedolai fod gagendor na ellid ei groesi rhyngddo a'r gwynfyd. Parhaodd y gŵr goludog i dybio bod ganddo hawliau, breintiau ac awdurdod i orchymyn i'r gweision redeg drosto: anfon Lasarus i wlychu fy ngwefusau; anfon Lasarus (mae'n debyg) o blith y meirw i rybuddio fy mrodyr. Onid oeddent hwythau'n rhannu moethusrwydd ei fywyd daearol? A thebyg fyddai eu tynged hwythau heb iddynt newid eu ffyrdd. Dyma'r unig dro y mae'r dyn cyfoethog yn dangos unrhyw ddiddordeb yn unrhyw un arall heblaw amdano ef ei hun. Parhâi i gredu, fodd bynnag, mai cardotyn i redeg cymwynas oedd Lasarus o hyd!

Gŵr cyfoethog ydoedd, heb unrhyw elfen o edifeirwch yn perthyn iddo. Yn wir, mae'r ffaith ei fod yn galw ar ei dad Abraham yn awgrymu ei fod yn credu y cawsai gam.

Ystyr enw *Lasarus* yw 'Mae Duw wedi helpu'. Ac yn y ddameg awgrymir, er caledwch ei fywyd a'i dlodi, bod llygyd yr Arglwydd ar y cardotyn Lasarus a bod Lasarus yn ei angen yn galw ar Dduw am gymorth. Gorwedda'i'n llipa wrth ddrws y gŵr cyfoethog ac fe fyddai wedi bwyta'n ddiolchgar weddillion gwleddoedd y gŵr cyfoethog pe cawsai

eu cynnig! Ni wisgai ddiollad moethus ond fe'i gorchuddiwyd gan gornwydydd poenus. Bu yntau farw. Ni chafodd angladd barchus. Ond cafodd ei gludo gan angylion i wledda wrth ochr Abraham. Nid cardotyn tlawd, na gwas bach i redeg neges am gardod oedd hwn mwyach. Ond dyma un a ddyrchafwyd, a ddiogelwyd ac a broffodd fod Duw yn ei gynorthwyo.

Abraham, tad y genedl a phatrwm ffydd yw'r trydydd cymeriad. Beth bynnag arall yr ydym i ddeall am gyflwr y goludog a Lasarus, mae'n amlwg fod trigo gydag Abraham yn dynodi bod mewn cyflwr dymunol.

Er i'r gŵr goludog gyfarch Abraham fel 'fy nhad' ac er i Abraham ei gyfarch yntau fel 'fy mab', nid oedd rhagor i'w perthynas nag enw! Abraham eglurodd wrth y goludog nad oedd ganddo yntau, yn fwy na'i deulu cyfoethog, unrhyw beth i'w esgusodi. Er gwybod y geiriau, ni thalodd sylw ymarferol i'r hyn a ddywedodd Moses a'r proffwydi. Dywedodd Abraham wrtho nad oedd modd croesi'r gagendor rhwng cyflwr gogoneddus Lasarus a'i gyflwr truenus ef. Ac yna daeth yr ergyd olaf. Hyd yn oed pe byddai i rywun godi o farw'n fyw (fel y byddai Iesu ei hun yn atgyfodi), ni fyddai anghrediniaeth y cyfoethog hunanfodlon yn cael ei newid yn ffydd fywiol a gwaredigol.

Gweddi

Arglwydd sanctaidd, trugarha wrthym. Trugarha wrth y balchder hwnnw sy'n tybio y medrwn adeiladu ein diogelwch drwy bwyso ar bobl rymus, ar amgylchiadau ffafriol, ar y ffaith y cawsom ein geni mewn gwlad sy'n llawn o freintiau ac o gyfoeth. Maddau i ni eilunaddoliaeth ein calonnau. Maddau i ni agweddau sy'n mynnu perchnogi, hyd yn oed os bydd eraill ar eu colled. Trugarha wrth genhedlaeth wrthysig, wrth fydolrwydd ein crefydd, wrth bobl sy'n siarad am fynnu cyfiawnder i eraill er mwyn i dlodion gael mwy, a'r un pryd yn gwrthod unrhyw ostyngiad yn ein safonau byw ein hunain. Arglwydd, dysg ni i weld bod gan yr anghenus dienw yr wyt ti'n ei adnabod, bod ganddynt anghenion a chri yr wyt ti yn ei chlywed. Dysg ni i wrando ar dy air, yn yr ysgrhythurau, a dysg ni i adnabod llais yr Hwn a ddaeth o farw'n fyw i'n gwaredu o'n gwrthryfel balch ac i'n hyfforddi yn ffyrdd cyfiawnder. Amen.

Emyn 835: 'Arglwydd Iôr, fe ddisgwyl d'Eglwys'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)